



Mae'n ofynnol yn ôl y canllawiau statudol i chi ymgysylltu â dinasyddion wrth baratoi'ch cynlluniau ardal. Nid oes angen ymgynghoriad ffurfiol ar y cynlluniau gan mai diben y gofyniad hwn yw sicrhau ymgysylltiad cyson â chymunedau, o'r asesiadau i'r gwaith cynllunio. Yn adran 1.3 a 2.8 y cynllun enghreifftiol, mae yna y gwnaethoch eu llenwi a dweud pwy i chi siarad â nhw a pham.

Negeseuon allweddol

- ◆ Nid oes angen i chi ddechrau rhaglen newydd o ymgysylltu, defnyddiwch y cysylltiadau sydd gennych eisoes.
- ◆ Gofalwch fod yna barhad a bod y cysylltiad â'r asesiad o'r boblogaeth yn cael ei egluro'n glir i ddinasyddion.
- ◆ Rheolwch ddisgwyliadau, peidiwch â holi pobl am bethau na allant eu newid

Cofiwch: Nid oes angen i'r ymgysylltu â dinasyddion wrth baratoi cydgynllun ardal fod mor eang â'r ymgysylltu helaeth a wneir gyda dinasyddion fel rhan o'r gwaith o gynnal asesiad o'r boblogaeth.

Sefydlu Gweithdrefn

Bydd angen i chi nodi'n gynnar yn y gwaith pryd fyddwch chi'n **mynd ati** i ymgysylltu yn ystod y broses gynllunio.

Cyn i chi ddechrau, treuliwch amser yn adolygu'r proses ymgysylltu y gwnaethoch ei defnyddio ar gyfer yr asesiadau o'r boblogaeth a phenderfynu Beth fyddwch chi'n ymgysylltu yn ei gylch ar gyfer y cynlluniau, yn cynnwys

- ◆ Pennu Blaenoriaethau – a oes cyfle i ymgysylltu
- ◆ Datblygu ymateb i'r blaenoriaethau
- ◆ Creu mecanwaith adborth ar gyfer monitro cynnydd

Ym mhob achos, bydd angen i chi reoli disgwyliadau am yr hyn rydych am fynd ati i ymgysylltu yn ei gylch

Hefyd, mae'n werth ystyried o'r cychwyn cyntaf â phwy rydych am fynd ati i ymgysylltu â nhw ac i bwy rydych chi am roi adborth.

A oes angen unrhyw weithgarwch ymgysylltu newydd?

Wrth nodi'ch blaenoriaethau pendant, mae'n bosibl y bydd gennych gwestiynau sydd heb eu hateb. Mae yna gyfle i chi siarad â grwpiau penodol o ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr pan fyddwch angen mwy o wybodaeth.

Enghraifft

Rydym yn ystyried datblygu ein hymateb mewn argyfwng ymhellach ar gyfer iechyd meddwl oedolion. Rydym yn gwybod bod pobl angen cael gafael ar wasanaeth argyfwng y tu allan i oriau ond rydym angen gwybod mwy am sut bydd unigolion a theuluoedd yn cysylltu â'r gwasanaeth hwnnw. Byddwn yn siarad â defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd am y ffordd y byddent yn rhoi gwybod i ni eu bod angen cymorth y tu allan i oriau wrth ddatblygu'r gwasanaeth.

Gwybodaeth newydd

Lle rydych chi wedi nodi bylchau sylweddol mewn gwybodaeth yn eich asesiad o'r boblogaeth, dylech fynd ati i ymgysylltu ymhellach. Gallwch gynnwys hyn yn adran 1.2 y templed 'Beth arall sydd angen i ni ei wybod' ac yn adran 2.2 y Penodau Themâu Craidd. Gall hyn ddigwydd ochr yn ochr â gwaith data neu ymchwil arall sy'n eich helpu i greu darlun o grŵp penodol o bobl.

Mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu a rhoi adborth

Ym mhob ardal bydd yna brosesau ymgysylltu a chysylltiadau â dinasyddion sydd wedi ennill eu plwyf. Fodd bynnag, mae yna fecanweithiau sefydledig eisoes y dylid eu defnyddio ar gyfer y broses ymgysylltu. Byddwch wedi nodi gweithgarwch ymgysylltu eisoes fel rhan o'ch asesiad poblogaeth. Gallai fod yn fuddiol gofyn iddo gael ei ddiwygio neu ei ddiweddarau ar yr adeg hon.

Paneli, fforymau ac arolygon dinasyddion

Defnyddiwch y paneli a fforymau dinasyddion sydd eisoes yn bodoli yn eich rhanbarth, yn cynnwys unrhyw baneli dinasyddion rhanbarthol a sefydlwyd ar gyfer gofal cymdeithasol neu unrhyw grwpiau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sydd wedi'u sefydlu ac sy'n gysylltiedig â'r themâu craidd. Bydd llawer o'r rhain wedi cael eu nodi drwy'ch asesiad o'r boblogaeth yn barod.

Ar gyfer y boblogaeth ehangach yn eich ardal, gallwch ddefnyddio'r paneli dinasyddion cyfredol a sefydlwyd ar gyfer eich awdurdod lleol neu fwrdd iechyd.

Cynrychiolwyr Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Bydd gan bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, sy'n gysylltiedig â grwpiau cymunedol. Hwyrach y byddwch am nodi'r disgwyliadau y bydd y cynrychiolwyr hyn yn weithgar yn y gwaith o gasglu safbwyntiau dinasyddion yn yr ardal pan fyddant yn cytuno'n ffurfiol i dderbyn y rôl.

Partneriaid y trydydd sector

Bydd llawer o sefydliadau'r trydydd sector eisoes wedi bod yn gyfryngwyr dibynadwy gyda chymunedau yn ystod yr asesiad. Hwyrach y byddwch am drefnu sesiwn gyda sefydliadau lleol i gytuno ar y camau nesaf ar gyfer ymgysylltu.

Ymgysylltu â sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector

Mae gofyn i chi ymgysylltu â phwy bynnag sydd â buddiant yn narpariaeth gofal a chymorth yn y rhanbarth, mewn perthynas ag unrhyw un o'r themâu craidd. Byddwch wedi nodi nifer o ddarparwyr a sefydliadau wrth fapio'r amrywiaeth a'r lefel o wasanaethau fel rhan o'r asesiad o'r boblogaeth, yn cynnwys rhai nad ydych chi wedi cael cyfle i ymgysylltu â nhw cynt.

Nid oes amheuaeth y bydd gan bob sefydliad gyfoeth o wybodaeth am y cymunedau maent yn eu cefnogi a dylai hyn gynnwys eich staff eich hun mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

Aelodau Etholedig a Byrddau

Nid oes disgwyl i chi gyflwyno'r Cynllun Ardal hwn gerbron Cyngor yr awdurdod lleol na Byrddau'r BILI. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwch am barhau â'r ymgysylltu ag aelodau etholedig ac aelodau bwrdd a ddechreuodd gyda'r asesiad o'r boblogaeth. Gallai hyn fod yn gyfle da i helpu i gyfathrebu rhai o'r negeseuon allweddol yn ymwneud â sut mae'r rhanbarth yn bwriadu mynd i'r afael â phroblemau a beth mae hyn yn ei olygu o ran cyflawni yn lleol.

Beth arall sy'n digwydd?

Mae'n bosibl y bydd gwaith ymgysylltu arall, yn ymwneud â themâu craidd, y gallwch ei ddefnyddio. Ar ddechrau'ch proses gynllunio, dylech lunio amserlen o'r gweithgarwch ymgysylltu y gwyddoch amdano ac a fydd yn digwydd drwy gydol y flwyddyn ac y gallwch chi ymuno ag ef.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Fel rhan o'r broses asesiad o'r boblogaeth, mae'n bosibl eich bod wedi dewis cynnal gwaith ymgysylltu ar y cyd â chydweithwyr a oedd yn gyfrifol am yr asesiadau llesiant lleol. Gan fod amserlenni'r Cynllun Llesiant yr un fath â'r Cynlluniau Ardal, gallech ddewis parhau i wneud y gwaith ymgysylltu mewn partneriaeth.

Mae'n bwysig nodi bod gofyniad i gynnal ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer y cynlluniau llesiant, gydag ymgynghoreion statudol a chyfnod ymgynghori o 12 wythnos o leiaf. Nid yw hyn yn ofyniad ar gyfer y Cynlluniau Ardal. Fodd bynnag, os ydych chi'n dewis ymgynghori ar y Cynlluniau Ardal ac eisiau i hyn i gyd-fynd â'r ymgynghoriad llesiant, cofiwch ystyried yr amserlenni a'r amser y byddai angen ei ganiatáu i ymateb i adborth a sylwadau.

Cwestiynau myfyriol

- ◆ A ydym wedi cytuno ar yr hyn maent eisiau ymgysylltu yn ei gylch a nodi hyn yn glir?
- ◆ A oes parhad â'r ymgysylltu a wnaed adeg yr asesiad o'r boblogaeth?
- ◆ A oes angen i ni ddiweddarau'r gwaith o fapio gwaith ymgysylltu ar gyfer yr ardal?
- ◆ A oes angen ymgysylltu o'r newydd?
- ◆ A ydym eisiau ymgynghori ar ein cynllun drafft ac a ydym wedi caniatáu amser i wneud hyn?

Darllen Pellach

<http://participation.cymru/cy/egwyddorion/llawlyfr-ymarferwyr-ar-gyfer-ymgysylltu-ar-cyhoedd>

<https://academi-live-storage.s3-eu-west-1.amazonaws.com/6d/71/a3/7c/52d6499fba8e8a5eb11204f0/Sowing-Seeds-Collaboration-cy.pdf?AWSAccessKeyId=AKIAJDV54K4ONTUFD7KA&Expires=1496764395&Signature=Tp13jLgTNaTIsE58nc0njtPjUE4%3d>



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government